

Beth sydd ei angen i roi terfyn ar dlodi plant yng Nghymru?

Safbwynt
Goleuo'r drafodaeth

Mehefin 2009

Bu i astudiaethau blaenorol gan JRF ar 'Beth sydd ei angen i roi terfyn ar dlodi plant yn 2020?' osod agenda sy'n llawn heriau i Lywodraeth y DU. Victoria Winckler sy'n ystyried eu goblygiadau o ran mynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru.

Pwyntiau allweddol

- Mae tua 32 y cant o'r plant yng Nghymru – 192,000 o blant – yn byw mewn tlodi. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) wedi cefnogi targed Llywodraeth y DU i ddileu tlodi plant erbyn 2020, ac mae wrthi'n paratoi strategaeth newydd ar dlodi plant.
- Bu i astudiaethau blaenorol gan JRF ddadlau bod angen newidiadau radical ym mhollisiau Llywodraeth y DU er mwyn dileu tlodi plant erbyn 2020. Mae'r strategaeth newydd ar dlodi plant yn gyfle i gynnwys rhai o'r argymhellion mewn meysydd sydd wedi'u datganoli'n llwyr neu'n rhannol i Gymru.
- Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, er mwyn cwrdd â'r targed penodol i ddileu tlodi incwm, wneud y canlynol:
 - cynyddu'r cymorth i rieni ddod o hyd i gyflogaeth, mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau, trwy raglenni budd-dâl-i-waith gwell, gan geisio pwerau ychwanegol i wneud hynny lle y bo angen;
 - gwella'r ddarpariaeth gofal plant yn ddramatig, gan gynnwys gofal cyn ac ar ôl ysgol a gofal yn y gwyliau, a gwella'r cymorth i ofalwyr sy'n dymuno gweithio;
 - hybu cyflogaeth hyblyg a chyflogaeth o ansawdd da, gan gynnwys trefniadau gweithio sy'n addas i deuluoedd a thâl ac amodau gweddus, yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat;
 - annog cyflogwyr yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol i gymryd rhan mewn Partneriaethau Cyflogaeth Lleol;
 - gwella sgiliau a chymwysterau oedolion yn sylweddol, gan ystyried anghenion penodol rhieni, ac
 - adolygu'r budd-daliadau, y grantiau a'r lwfansau a weinyddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau lleol a rhoi anogaeth i hawlio budd-daliadau.
- Dylai camau gweithredu i wella lles hirdymor plant, yn enwedig trwy addysg, barhau. Yn ogystal, dylid datblygu camau gweithredu mewn meysydd eraill sydd wedi'u datganoli, megis iechyd.
- Dylid hefyd ystyried y cyfle i Lywodraeth Cynulliad Cymru geisio pwerau deddfwriaethol pellach er mwyn ymdrin â thlodi plant.

Awdur

Victoria Winckler,
Sefydliad Bevan

Y sefyllfa gyfredol o ran tlodi plant yng Nghymru

Faint o blant?

Mae'r ffigyrau diweddaraf yn awgrymu bod oddeutu 32 y cant o'r plant yng Nghymru'n byw mewn aelwydydd y mae'u hincwm (ar ôl costau tai) yn llai na 60 y cant o'r canolrif ar gyfer y DU – tua 192,000 o blant. Rhwng 1999 a 2005, fe ostyngodd y gyfran o'r plant sy'n byw mewn tlodi'n gyflymach yng Nghymru nag yn unrhyw un o ranbarthau Lloegr, sy'n golygu ei bod bellach yn agos at y cyfartaledd ar gyfer Prydain Fawr, ond mae bellach wedi cynyddu.

Mae tlodi plant yng Nghymru'n gysylltiedig yn arbennig â'r canlynol:

- Byw mewn aelwyd heb waith – mae tua 60 y cant o'r plant mewn tlodi'n byw mewn aelwyd lle nad oes unrhyw un yn gweithio.
- Byw mewn aelwyd ag un rhiant – mae pedwar o bob deg o'r plant mewn tlodi (42 y cant) yn byw mewn aelwyd ag un oedolyn ynddi.
- Byw gydag oedolyn anabl – mae 40 y cant o'r plant sy'n byw gyda rhiant anabl yn byw mewn tlodi o'u cymharu â 25 y cant o'r plant sy'n byw gyda rhieni nad ydynt yn anabl (Cronfa Achub y Plant / Sefydliad Bevan, 2007).

Beth sy'n cael ei wneud yng Nghymru?

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cefnogi ymrwymiad Llywodraeth y DU i haneru lefel tlodi plant ym 1997 erbyn 2010 ac i ddileu tlodi plant erbyn 2020. Yn wahanol i ddull Llywodraeth y DU, mae strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar dlodi plant, *Dyfodol Teg i'n Plant* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005), â'i gwreiddiau'n ddwfn yng Nghonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn. O ganlyniad, mae'r strategaeth ar dlodi plant yng Nghymru'n cynnwys agweddau eraill ar les plant yn ogystal â thlodi incwm. Mae elfennau allweddol strategaeth 2005 fel a ganlyn:

- **Lleihau tlodi incwm** trwy fynediad at gyflogaeth a lleihau allgau ariannol;
- **Rhoi terfyn ar dlodi cyfranogiad** trwy gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch hamdden a chymdeithasol, gan ddileu camwahaniaethu a bwlio, a gwrando ar blant;
- **Lleihau tlodi gwasanaethau** trwy fynediad gwell at wasanaethau prif-ffrwd a thrwy dargeddu rhai gwasanaethau.

Cafodd strategaeth 2005 ei dilyn gan gyfres o gerrig milltir a thargedau i fesur cynnydd (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006a) a Cham 1af cynllun cyflawni a oedd yn pwysleisio 'prawf-fesur polisiau' a 'phlygu rhaglenni' yn ogystal â rhai mentrau penodol (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2006b).

Cafodd yr ymrwymiad i ddileu tlodi plant ei gadarnhau gan y Llywodraeth a etholwyd yng Nghynulliad Cymru yn 2007. Roedd y rhaglen *Cymru'n Un* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007) yn gwneud dileu tlodi plant yn flaenoriaeth uchel ac yn ategu'r strategaeth bresennol ar dlodi plant ag ymrwymadau i wneud y canlynol:

- sefydlu 'grŵp arbenigol' i gynghori ynghylch polisi a chynnydd – mae'r adroddiad cyntaf ar addysg i blant 4-14 mlwydd oed (Grŵp Arbenigol Tlodi Plant, 2008);
- ceisio pwerau deddfwriaethol ar gyfer agweddau ar les plant – mae'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ar blant agored i niwed wedi cael ei gymeradwyo (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2008) ac mae deddfwriaeth ddrafft i osod dyletswyddau statudol ar asiantaethau cyhoeddus mewn perthynas â thlodi plant yn datblygu (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008a; 2009);¹
- cyhoeddi data ar faint problem tlodi plant yng Nghymru ac adrodd yn rheolaidd ar gynnydd (wedi'i gynnwys yn Monitor Lles Plant (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008b)).

Cafodd y strategaeth ar dlodi plant ei hategu ymhellach gan Ddatganiad Ysgrifenedig y Gweinidog ym mis Chwefror 2008 (a atgynhyrchwyd yng nghyhoeddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008a), a oedd yn pwysleisio tri maes: gwella cyfleoedd bywyd, cynyddu cynhwysiant ariannol a chynyddu nifer y rhai sy'n hawlio credydau treth a budd-daliadau'r DU.

Ym mis Ionawr 2009, fe gadarnhaodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y byddai'r gwaith yn dechrau i baratoi strategaeth newydd ar dlodi plant yn ystod y flwyddyn, er mwyn ailarfarnu a chadarnhau'i chynnwys a'i chyfeiriad. Bydd angen i'r strategaeth hefyd fynd i'r afael â'r her enfawr o gyrraedd targed 2020, a hefyd ystyried newidiadau yn y cyd-destun deddfwriaethol ers strategaeth 2005. Yn arbennig, mae Deddf Llywodraeth Cymru (2006), sy'n rhoi'r gallu i Lywodraeth Cynulliad Cymru geisio pwerau datganoledig newydd, yn cynnig potensial i sicrhau rhywfaint o reolaeth ar y meysydd polisi allweddol nad ydynt wedi'u datganoli, megis budd-dal i waith.

A oes digon yn cael ei wneud yng Nghymru?

Mae ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael â thlodi plant fel blaenoriaeth wleidyddol uchel wedi cael croeso cyffredinol. Fodd bynnag, er gwaethaf y cynnydd a wnaed yn hanner cyntaf y degawd, mae nifer o gwestiynau ynghylch y dull a ddefnyddiwyd hyd yma.

Yn gyntaf, mae'r modd y caiff strategaeth 2005 ei chydlynw a'i chyflawni wedi cael ei feirniadu. Bu i ymchwiliad gan Bwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru i dlodi plant ddod i'r casgliad bod 'diffyg cydlynw strategol' gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2008), a nodi bod yng Nghymru ddiffyg 'dull eglur, cydlynol a chyfoes' mewn perthynas â thlodi plant. Canfu'r ymchwiliad hefyd nad oedd rhai o'r ymrwymadau yng Nghynllun Cyflawni 2006 wedi cael eu gweithredu'n llawn, megis 'prawf-fesur' polisiâu prif-ffrwd o safbwynt yr effaith ar dlodi plant, a daeth i'r casgliad nad oedd effaith polisiâu'n cael ei monitro ddigon.

Yn ail, ceir cwestiwn sy'n cael ei drafod yn llawer llai aml, sef gallu Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyrraedd y targed o ran tlodi plant trwy'i hymdrechion ei hun. Fel y mae hi ei hun wedi cydnabod, nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru'n rheoli nifer o'r arfau allweddol ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant, megis trethiant a budd-daliadau, y lleiafswm cyflog cenedlaethol, hawliau cyflogaeth a rhaglenni budd-dal-i-waith. Fodd bynnag, mae gan Lywodraeth y Cynulliad bwerau sylweddol mewn meysydd polisi eraill sy'n effeithio ar les plant, megis addysg a dysgu, gofal plant, gofal cymdeithasol

a chwarae. Mae'r dull mewn perthynas â thlodi plant wedi pwysleisio'r meysydd hyn, gydag addysg yn arbennig o amlwg (Egan, 2007). Mae cysylltiad pendant rhwng nifer o'r datblygiadau diweddar mewn polisi ac arfer ym myd addysg, megis Dechrau'n Deg, y Cyfnod Sylfaen, y cyllid ychwanegol sydd ar gael i ysgolion â chrynodeiadau uchel o fyfyrwyr difreintiedig (trwy RHAGORI) a'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, a mynd i'r afael â thlodi plant. Yn arwyddocaol, fe benderfynodd y Grŵp Arbenigol Tlodi Plant a Phwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddechrau ar eu gwaith trwy roi sylw i addysg.

Fodd bynnag, mae camau gweithredu sy'n ymwneud ag addysg yn dwyn effaith anuniongyrchol a mwy hirdymor yn bennaf ar les plant, ac yn dwyn effaith fyrdymor sydd yr un mor gyfyngedig ar amodau materol plant a'u teuluoedd. Mae felly'n arbennig o anodd i Lywodraeth Cynulliad Cymru gyrraedd targed cymharol gul, sy'n seiliedig ar incwm, o fewn graddfa amser gymharol fyr, hyd yn oed os bydd ei phwyslais ar addysg yn profi'n hynod effeithiol yn y tymor hirach.

Yn drydydd, mae maint yr her i ddileu tlodi plant erbyn 2020 yn enfawr. Mae'r cynnydd a wnaed yn hanner cyntaf y ganrif wedi peidio, mae'r twf diweddar mewn cyflogaeth yng Nghymru fel mewn rhannau eraill o'r DU wedi dechrau gwrthdroi, a disgwylir yn gyffredinol y bydd pwysau difrifol ar wariant cyhoeddus. Mewn geiriau eraill, mae'r amodau a oedd yn bodoli pan ddechreuodd tlodi plant leihau wedi mynd, ac efallai na fyddant yn dychwelyd am beth amser, os o gwbl.

Mae strategaeth newydd ar dlodi plant yng Nghymru felly'n wynebu rhai heriau anodd. Mae'n hanfodol ei bod yn cydnabod ac yn ategu polisiâu DU-gyfan, yn ogystal â dilyn ei pholisiâu datganoledig ei hun; mae'n rhaid iddi gael ei chyflawni'n effeithiol; ac mae'n rhaid ei bod yn briodol i faint ac effaith problem tlodi plant yng Nghymru.

Beth sydd ei angen i roi terfyn ar dlodi plant yng Nghymru?

Rhoi terfyn ar dlodi plant yn y DU

Mae Hirsch (2008) yn darparu adolygiad cynhwysfawr o'r dystiolaeth ar 'yr hyn y mae'i angen i roi terfyn ar dlodi plant yn 2020'. Mae'r canfyddiadau'n nodi agenda ar gyfer gweithredu er mwyn cyrraedd y targed ar lefel y DU. Mae pwyntiau allweddol yr adolygiad fel a ganlyn:

- Ni all yr un polisi sengl gyrraedd y targed.
- Mae helpu rhieni i gael swyddi'n hollbwysig, ond mae angen i'r strategaeth ystyried ffactorau sy'n effeithio ar gyfleoedd i ennill incwm.
- Mae angen camau gweithredu hefyd i wella incwm pobl sydd mewn gwaith, ac i'r perwyl hwn mae

angen meddwl ymhellach am lefelau enillion yn ogystal ag ychwanegiadau at enillion.

- Bydd angen cynyddu lefel y budd-daliadau ar gyfer y rheiny sydd allan o waith er mwyn i rieni nad ydynt yn gallu gweithio osgoi tlodi.

Mae Hirsch wedyn yn adnabod pedwar maes lle mae angen newid mawr mewn polisi er mwyn mynd i'r afael â thlodi plant. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- gofal plant;
- cyflogaeth hyblyg o ansawdd;
- sgiliau rhieni; a
- budd-daliadau a chredydau treth.

Daeth Hirsch i'r casgliad hefyd fod angen i deuluoedd, cyflogwyr a'r Llywodraeth gydweithio mewn 'partneriaeth' newydd, a fyddai'n rhoi terfyn ar y 'ddrwygybiaeth niweidiol' sy'n bodoli rhwng teuluoedd a'r wladwriaeth.

Ni fydd y gwaith o gyflawni'r agenda a gynigir gan Hirsch yn syml, ac un o'r prif resymau am hynny yw bod dau o'r meysydd polisi allweddol a nodir, sef gofal plant a sgiliau, wedi'u datganoli. Hyd yn oed lle nad yw polisiâu wedi'u datganoli, mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru rôl i'w chyflawni o ran ategu mentrau Llywodraeth y DU. Yn wir, o ystyried casgliad Hirsch na all yr un polisi unigol gyrraedd y targed ar ei ben ei hun, mae'n hanfodol bod polisiâu ar lefel y DU a pholisiâu yng Nghymru'n cael eu defnyddio i gael effaith ar dlodi plant.

Rhoi terfyn ar dlodi plant yng Nghymru

Mae adolygiad Hirsch o'r dystiolaeth (Hirsch, 2008) yn darparu cefndir defnyddiol i ailarfarnu'r dull ar gyfer mynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru. Mae gweddill y papur hwn yn ystyried casgliadau Hirsch ac yn ystyried sut y gellid gweithredu arnynt wrth baratoi strategaeth newydd ar dlodi plant yng Nghymru.

Cafodd y safbwyntiau'u goleuo gan, ond nid ydynt o anghenraid yn cynrychioli, safbwyntiau cyfranogwyr allweddol mewn trafodaeth yng Nghymru ym mis Rhagfyr 2008.

Rhoi cymorth i bobl gael gwaith

Mae Hirsch yn dadlau bod 'llwybrau gwell i fyd gwaith' yn faes y mae angen rhoi hwb newydd iddo er mwyn dileu tlodi plant. Mae'n awgrymu, er bod amryw raglenni lles wedi cyflawni rôl bwysig o ran helpu rhieni i gael swyddi hyd yma, bod angen gwneud mwy i ymateb i faint yr her yn y degawd nesaf. Mae helpu rhieni i gael gwaith yn hollbwysig yng Nghymru, lle mae 60 y cant o'r plant tlawd yn byw mewn aelwydydd lle nad yw'r un rhiant yn gweithio.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gweithredu'i rhaglenni budd-dal-i-waith ei hun i ategu rhaglenni prif-frwd yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).² Mae'r rhain wedi cynnwys:

- Yn Awyddus i Weithio –cyngor a chymorth i bobl sy'n anweithgar yn economaidd mewn rhannau o Gymru.
- Genesis – cymorth i rieni ddod o hyd i waith a darpariaeth gofal plant.
- Paru Swyddi – cymorth dwys yn ardal Blaenau'r Cymoedd.

Mae rhaglenni'r Adran Gwaith a Phensiynau ar hyn o bryd yn cael eu diwygio'n helaeth gan roi mwy o bwyslais ar hawlyddion yn derbyn gwaith, gan gynnwys gofyniad i rieni sengl geisio gwaith, asesiadau trylwyr o bobl anabl a sancsiynau i bobl nad ydynt yn cydymffurfio â gofynion yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae rhywfaint o anesmwythder na fydd y diwygiadau hyn yn ystyried amgylchiadau penodol yng Nghymru (adroddiad ar BBC Wales News, 2008; Winckler, 2008). Mae'r rhain yn cynnwys lefelau isel o alw am lafur mewn rhai ardaloedd, diffyg gofal plant hygyrch ac/neu fforddiadwy a chludiant cyhoeddus gwael.

Ymchwil gysylltiedig

Yn 2008, bu i saith adroddiad gan JRF a chrynodeb *Round-up* adolygu'r hyn y mae'i angen er mwyn rhoi terfyn ar dlodi plant yn 2020.

Round-up:

What is needed to end child poverty in 2020? Donald Hirsch

Adroddiadau:

Can work eradicate child poverty? Dave Simmonds a Paul Bivand

Childcare and child poverty Jane Waldfogel ac Alison Garnham

Ending severe child poverty Jason Strelitz

Addressing in-work poverty Peter Kenway

Tackling child poverty when parents cannot work Martin Evans a Lewis Williams

The effects of discrimination on families in the fight to end child poverty Matt Davies

Parental qualifications and child poverty in 2020 Andy Dickerson a Jo Lindley

Er gwaethaf pwysigrwydd cyflogaeth i ddileu tlodi plant, nid yw rhaglenni budd-dal-i-waith wedi bod yn nodwedd amlwg yn y strategaeth ar dlodi plant yng Nghymru hyd yma. Mae hyn yn deillio'n rhannol o'r ffaith nad yw rhaglenni lles yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi'u datganoli, er bod datblygiad rhaglenni lles Llywodraeth Cynulliad Cymru'i hun yn awgrymu y gallai gyflawni rôl fwy canolog o lawer yn y dyfodol. Yn ogystal, mae potensial i archwilio'r posibilrwydd o ddatganoli'r cyfrifoldeb am reoli rhaglenni prif-ffrwd, os nad y rhaglenni'u hunain, i Gymru, er mwyn sicrhau eu bod wedi'u haddasu er mwyn gweddu i amgylchiadau yng Nghymru.

Mae'n hanfodol bod yr help i rieni i gael swyddi, trwy raglenni budd-dal-i-waith, yn cael ei integreiddio'n llawn mewn strategaeth ar dlodi plant yng Nghymru er mwyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru fod â gobaith o gyrraedd targed 2020. Mae angen i raglenni prif-ffrwd sydd heb eu datganoli gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, rhaglenni Llywodraeth Cynulliad Cymru a rhaglenni eraill, lleol gael eu cynnwys. Ar ben hynny, mae'n rhaid i newidiadau i raglenni budd-dal-i-waith yr Adran Gwaith a Phensiynau gydnabod amgylchiadau penodol yng Nghymru a dylent yn arbennig gymryd cymaint o ofal â phosibl i osgoi achosi caledi difrifol i blant trwy osod 'sancsiynau' ar rieni mewn perthynas â budd-daliadau. Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd annog cyflogwyr yn y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol i gyfranogi mewn Partneriaethau Cyflogaeth Lleol, sydd wedi'u bwriadu i ddarparu cyfleoedd gwaith ar gyfer cyfranogwyr o raglenni budd-dal i waith.

Gweithio a rhianta

Ail elfen o adolygiad Hirsch o dystiolaeth yw gweithio a rhianta. Mae'n galw am gysoni'r pwysau, sydd weithiau'n groestynnol, ar rieni i weithio ac i gyflawni'u cyfrifoldebau fel rhieni. Mae angen cymryd camau pellach (fel a nodir yn Waldfogel a Garnham, 2008) i wella darpariaeth gofal plant a darparu ffyrdd gwell o gynnig cymorth ariannol wedi'i dargedu. Mae Hirsch yn awgrymu bod angen o hyd am newid radical 'er mwyn cyrraedd y sefyllfa sy'n bodoli mewn rhai gwledydd Ewropeaidd lle caiff gofal plant ei gymryd yn ganiataol fel gwasanaeth lleol, sy'n fforddiadwy ac ar gael lle y bo'i angen.'

Mae *Ar gyfer Plant y mae Gofal Plant*, y strategaeth gofal plant i Gymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002), wedi'i bwriadu i sicrhau 'bod gofal plant ar gael yn eang ac yn fforddiadwy' a'i fod yn rhoi 'hyblygrwydd a dewis' i rieni o ran sut y maent yn cael cydbwysedd rhwng teulu, bywyd ac ymrwymadau eraill, tra'i bod ar yr un pryd yn sicrhau bod gofal plant yn diwallu anghenion datblygiadol plant. Bu i raglen *Cymru'n Un* wneud cyfraniad sylweddol o ran cryfhau nodau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gofal plant, gan ymrwymo i 'ddatblygu darpariaeth gofal plant fforddiadwy i bawb'. Mae hyn yn cael ei wneud

trwy'r rhaglen *Dechrau'n Deg* sy'n cynnig dewislen o wasanaethau ar gyfer plant mewn ardaloedd difreintiedig gan gynnwys gofal rhan-amser yn rhad ac am ddim ar gyfer plant dyflwydd oed, gwasanaeth ymwelydd iechyd gwell a chymorth rhianta. Cynigir deddfwriaeth a fyddai'n darparu gofal plant rhad ac am ddim ar gyfer plant dyflwydd oed mewn ardaloedd difreintiedig penodol (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008a).

Er hynny, ymddengys fod diffyg darpariaeth gofal plant. Yng Nghymru mae un lle gofal plant cofrestredig am bob 7.3 plentyn, o'i gymharu ag un lle am bob 5.7 plentyn yn Lloegr (Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, 2008; Ofsted, 2008; Ystadegau Gwladol, 2008). Ar ben hynny, mae'r cynnydd yn nifer y lleoedd yng Nghymru wedi peidio'n dilyn twf ym mlynnyddoedd cyntaf y degawd. Mae llawer o'r ddarpariaeth ar gyfer rhai dan bump yn ddarpariaeth ran-amser (er enghraifft mae'r arweiniad ar hyn o bryd ar gyfer *Dechrau'n Deg* yn nodi darpariaeth o 12.5 awr yr wythnos, 42 wythnos y flwyddyn) ac nid yw mentrau seiliedig-ar-ardaloedd yn mynd i'r afael ag anghenion plant tlawd sy'n byw y tu allan i ardaloedd difreintiedig. Mae darpariaeth ar gyfer plant o oedran ysgol yn dal i fod yn broblem nad yw wastad yn cael ei chydabod mewn polisi, ynghyd ag anghenion penodol plant anabl.

Er bod mentrau Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cael eu croesawu'n fawr, ymddengys yng Nghymru, fel yng ngweddill y DU, fod gofal plant yn faes lle mae'n rhaid wrth newid mawr er mwyn cyrraedd y targed o ran tlodi plant. Gellir addasu nifer o argymhellion gan Waldfogel a Garnham (2008) fel eu bod yn berthnasol i Gymru, sef:

- cyflwyno'r elfen gofal plant o *Dechrau'n Deg* yn raddol ym mhob ardal yng Nghymru;
- cynyddu'r ddarpariaeth addysg ran-amser ar gyfer plant tair i bedair blwydd oed i 20 awr yr wythnos, gan godi i 30 awr yr wythnos;
- integreiddio darpariaeth ran-amser rad-ac-am-ddim fel rhan o becyn gofal ehangach ar gyfer y rheiny ac arnynt angen gofal cofleidol am oriau hirach neu ar gyfer gofal mewn oriau annodweddiadol;
- adolygu gallu'r sector gofal plant yng ngoleuni darpariaeth rad-ac-am-ddim;
- adolygu darpariaeth y tu allan i'r ysgol ac yn ystod y gwyliau ar gyfer plant pump i un ar ddeg mlwydd oed a phlant dros un ar ddeg mlwydd oed;
- archwilio ffyrdd o ddiwallu anghenion gofal plant rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol;
- gwella ansawdd gofal plant trwy newid tuag at weithlu graddedig; a
- sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei hintegreiddio â gofynion Credydau Treth Gwaith.

Nid diffyg darpariaeth gofal plant yw'r unig gyfyngiad ar gyflogaeth rhieni. Mae gan Gymru'r lefelau salwch ac anabledd uchaf, a hefyd gyfran uchel o'r boblogaeth (13

y cant) sy'n darparu gofal di-dâl ar gyfer aelod o'r teulu, perthynas neu gymydog. Mae gofawyr gwrywaidd a benywaidd sy'n darparu mwy nag 20 awr yr wythnos o ofal yn llai tebygol o lawer i fod mewn cyflogaeth na rhai nad ydynt yn ofalwyr (Yeandle et al., 2007). Felly mae angen i strategaeth ar dlodi plant ystyried hefyd sut orau i roi cymorth i ofalwyr sy'n gweithio, ar yr un pryd â chynyddu'r ddarpariaeth gofal plant.

Cyflogaeth hyblyg o ansawdd

Mae Hirsch yn dadlau nad yw rhoi cymorth i bobl gael gwaith yn unig yn ddigon i gyrraedd y targedau o ran tlodi plant – mae natur y gwaith y mae rhieni'n ei wneud o bwys hefyd. Yn fwyaf amlwg, mae'r oriau a'r cyflog sy'n gysylltiedig â gwaith yn pennu incwm aelwyd, a thrwy hynny'r tebygolrwydd y bydd ei haelodau'n byw mewn tlodi. Fodd bynnag, mae arwyddocâd natur y gwaith yn fwy na hynny: mae ansawdd y swydd yn elfen allweddol yn newisiadau teuluoedd ynghylch faint o waith a wneir a chan bwy, yn enwedig pa un a yw'r dda oedolyn mewn aelwyd sy'n cynnwys cwpl yn dewis gweithio (Kenway, 2008). Mae'r dewis hwn yn un hollbwysig, gan fod ail swydd mewn aelwyd yn gallu golygu'r gwahaniaeth rhwng tlodi a safon byw dderbyniol. Ni ddyldid anghofio bod 40 y cant o'r plant yn byw mewn aelwydydd lle mae rhywun yn gweithio.

Mae ansawdd cyflogaeth wedi bod fwy neu lai'n absennol fel mater yn y strategaeth ar dlodi plant yng Nghymru, ac nid yw wedi bod yn amlwg ychwaith mewn strategaethau ar yr economi a sgiliau. Nid yw hynny'n golygu nad yw'r angen yn un taer: mae ymchwil yn awgrymu bod menywod a dynion yng Nghymru'n llai tebygol o fod â mynediad at drefniadau gweithio hyblyg nag yn Lloegr (Dex a Ward, 2007); mae cyflog isel yr un mor amlwg yng Nghymru ag mewn rhannau eraill o'r DU, a chaiff ei waethygu gan y bwlch cyflogau rhwng y rhywiau; ac mae awgrymiadau nad yw symudoledd cymdeithasol yng Nghymru'n ddim gwell, a'i fod o bosib yn waeth ymhlith grwpiau oedran ifancach, nag mewn ardaloedd eraill (Paterson ac Iannelli, 2007).

Er bod ansawdd cyflogaeth yn cael ei ystyried ar y cyfan yn fater sydd heb ei ddatganoli, mae llawer o fentrau ar y cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith wedi cael eu hariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (Chwarae Teg, heb ddyddiad), a *Cenedl Hyblyg* yw'r prosiect mawr diweddaraf i hybu gweithio hyblyg. Fodd bynnag, caiff y mentrau hyn eu sbarduno'n bennaf gan bryderon ynghylch cydraddoldeb y rhywiau a pherfformiad busnes yn hytrach na mynd i'r afael ag anghenion cyflogaeth rhieni er mwyn lleihau tlodi plant.

Mae goruchafiaeth y sector cyhoeddus yn y farchnad lafur yng Nghymru a'r bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru ac undebau llafur yn cynnig cyfle unigryw i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag ansawdd swyddi. Mae dadl gref felly o blaid cynnwys

hybu cyflogaeth 'sy'n ystyriol o deuluoedd' yn y strategaeth newydd ar dlodi plant.

Sgiliau rhieni

Y pedwerydd maes y mae Hirsch yn galw am newid mawr ynddo yw sgiliau rhieni. Ochr yn ochr â newid yn y galw am lafur, mae'n awgrymu bod angen newidiadau hefyd o ran y cyflenwad, sef mewn sgiliau a chymwysterau uwch, ymhlith rhieni er mwyn iddynt elwa o waith mwy hyblyg (ac yn y drefn arall hefyd).

Mae ffocws sylweddol ar addysg a dysgu oedolion yng Nghymru, fel a nodir yn y Strategaeth Dysgu a Sgiliau (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008c), ond o fewn hon ychydig o bwyslais sydd ar rieni. Er syndod, ychydig o gyfeiriad sydd at ofal plant hefyd, er ei fod yn cael ei nodi fel rhwystr i ddysgu gan 11 y cant o'r menywod (Aldridge et al., 2007). O'i chyferbynnu, mae'r strategaeth tlodi plant yn canolbwyntio gan mwyaf ar ddysgu gan blant eu hunain, yn enwedig addysg blynyddoedd cynnar (Egan, 2007).

Mae'n ddadleuol a yw mynd i'r afael yn benodol â sgiliau rhieni'n briodol o ystyried y gyfran uchel o'r oedolion sy'n dod yn rhieni (a natur anrhagweladwy bywyd fel rhiant!). Byddai angen i unrhyw fenter i ymgysylltu â rhieni fynd i'r afael ag anhoffter diwylliannol cryf o gyfranogi mewn cyfleoedd dysgu yr ymddengys ei fod yn bodoli ymhlith rhai grwpiau cymdeithasol. Er hynny, nid oes amheuaeth y dylai fod lle yn y strategaeth ar dlodi plant lle'r eir i'r afael â sgiliau a dysgu oedolion, gan gynnwys anghenion penodol rhieni. Gallai hyn, fel isafswm, gynnwys dysgu a gofal plant sy'n ystyriol o deuluoedd.

Budd-daliadau a chredydau treth

Mae Hirsch yn dadlau bod 'angen i fudd-daliadau sylfaenol ddarparu sylfaen ddigonol ar gyfer gwelliant ym mywydau teuluoedd, gan eu galluogi i osgoi caledi a dyled'. Mae wedyn yn amlinellu'r ffyrdd allweddol y mae angen i'r gyfundrefn treth a budd-daliadau newid:

- mae angen i'r gyfundrefn budd-daliadau/credydau treth ffafrio cleientiaid;
- mae angen gostwng cymhlethdod a thaliadau ôl-weithredol y gyfundrefn credydau treth bresennol;
- mae angen i'r gyfundrefn budd-daliadau gefnogi yn hytrach nag anghefnogi gweithio hyblyg, yn enwedig i bobl â chysylltiadau gwan â'r farchnad lafur sy'n cymryd eu camau cyntaf yn ôl i mewn iddi;
- gwell diogelwch hirdymor yn y rhwyd ddiogelwch i deuluoedd sydd allan o waith, fel eu bod yn gallu osgoi dyled, er enghraifft trwy godi cyfraddau budd-daliadau'n rheolaidd ac mewn ffordd ragweladwy.

Er mai ychydig o ddylanwad neu reolaeth sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar brif gorff y gyfundrefn dreth/budd-daliadau, mae awdurdodau lleol yn gweinyddu nifer o fudd-daliadau eraill, sef Budd-dal Tai

a Budd-dal Treth Gyngor, a grantiau a lwfansau eraill gan gynnwys pryddau ysgol am ddim a brecwastau mewn ysgolion, grantiau gwisgoedd ysgol, lwfansau cynhaliath addysg, taliadau consesiynol ar gludiant cyhoeddus a thaliadau am weithgareddau hamdden a diwylliannol sy'n cael eu rhedeg yn gyhoeddus. Mae nifer o'r grantiau a'r lwfansau'n fwy hael ac/neu mae ganddynt feini prawf cymhwyster ehangach na'r rhai sy'n cyfateb iddynt yn Lloegr, er nad yw'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu fframio'n amlwg fel mesurau i fynd i'r afael â thlodi plant. Mae nifer y rhai sy'n hawlio budd-daliadau hefyd yn broblem: mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi nodi'r angen i annog pobl i hawlio budd-daliadau fel elfen yn ei dull mewn perthynas â thlodi plant.

Felly, mae potensial i fynd i'r afael â'r nifer sy'n hawlio budd-daliadau, grantiau a lwfansau yng Nghymru, y ffordd y mae'r rhain yn gweithredu a'r ffordd y cânt eu darparu er mwyn iddynt ganolbwyntio ar dlodi plant ac er mwyn symleiddio'r modd y cânt eu gweinyddu. Gellid hefyd ystyried y ffordd y mae budd-daliadau'n cefnogi yn hytrach nag anghefnogi cyflogaeth rhieni. Ym mis Rhagfyr 2008, bu i drafodaethau ar gyfer y papur *Safbwynt* hwn hefyd adnabod camau i ddatganoli'r broses o weinyddu'r prif fudd-daliadau a chredydau treth fel dewis sy'n werth ei ystyried.

Casgliad

Mae'r dystiolaeth yn eglur bod angen newidiadau radical ym maes cyflogaeth, gofal plant, sgiliau ac yn y gyfundrefn credydau treth a budd-daliadau er mwyn i'r DU ddileu tlodi plant erbyn 2020. Er y bydd rhai o'r newidiadau hyn yn cael eu harwain gan Lywodraeth y DU, mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru hefyd rôl hollbwysig i'w chyflawni. Mae hyn yn awgrymu, er mwyn cyrraedd y targed penodol o ddileu tlodi incwm ymhlith plant, y bydd angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru ganolbwyntio'i strategaeth ar y canlynol:

- darparu cymorth i rieni ddod o hyd i gyflogaeth, trwy raglenni budd-dal i waith gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a'i mentrau'i hun, a chan geisio pwerau ychwanegol os oes angen er mwyn rheoli rhaglenni'r Adran Gwaith a Phensiynau;
- gwella'r ddarpariaeth gofal plant yn ddramatig, gan gynnwys y ddarpariaeth ar gyfer plant o oedran ysgol yn ogystal â rhai dan bump, a gwella'r cymorth i ofalwyr sy'n dymuno gweithio;
- hybu cyflogaeth hyblyg ac o ansawdd da, gan gynnwys trefniadau gweithio sy'n ystyriol o deuluoedd a chyflog gweddus, yn enwedig yn y sector cyhoeddus;
- annog cyflogwyr i gyfranogi mewn Partneriaethau Cyflogwyr Lleol;
- gwella sgiliau a chymwysterau oedolion yn sylweddol, gan ystyried anghenion penodol rhieni; ac

- adolygu'r budd-daliadau, y grantiau a'r lwfansau a reolir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a chynyddu nifer y rhai sy'n hawlio budd-daliadau yng Nghymru ac ar lefel y DU.

Yn ogystal, os yw Llywodraeth Cynulliad Cymru'n dymuno cyflawni'i hymrwymiad i ddileu tlodi plant erbyn 2020 bydd angen iddi gyflwyno a darparu adnoddau ar gyfer ystod eang o bolisiau eraill. Mae eisoes wedi dechrau mynd i'r afael â thlodi plant ym myd addysg, ond nid hwn yw'r unig faes pwysig o bell ffordd. Mae iechyd yn faes polisi allweddol arall, gydag iechyd gwael ymhlith plant yn cael ei gysylltu'n agos â thlodi plant (Y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol, 2007), ac eto mae wedi cael cryn dipyn yn llai o sylw.

Ynglŷn â'r papur hwn

Ysgrifennwyd y papur hwn gan Victoria Winckler o Sefydliad Bevan, melin drafod annibynnol sy'n gweithio ym maes cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru.

Mae'n tynnu ar gasgliadau adroddiadau diweddar a gomisiynwyd gan Sefydliad Joseph Rowntree ar 'yr hyn y mae'i angen i roi terfyn ar dlodi plant erbyn 2020', ac yn enwedig y trosolwg a luniwyd gan Donald Hirsch. Mae'r dogfennau hyn ar gael i'w lawrlwytho o wefan JRF: www.jrf.org.uk.

Cafodd y safbwyntiau yn y papur hwn eu goleuo gan drafodaeth gyda chyfranogwyr allweddol mewn sesiwn drafod yng Nghymru a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2008, ond casgliadau'r awdur ei hun yw'r rhai y doir iddynt.

Nodiadau

- 1 Mae'r ddeddfwriaeth yn wahanol i'r cynigion ar gyfer cyrff yn Lloegr.
- 2 Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, nid oedd gwerthusiadau o'r rhaglenni hyn wedi cael eu cyhoeddi.

Cyfeiriadau

Aldridge, F., Furlong, C. a Nettleship, S. (2007) *Moving towards a Learning Country*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru / NIACE Dysgu Cymru

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (2008) *Adroddiad Blynyddol 2006/07*. Caerdydd: AGGCC

Cronfa Achub y Plant / Sefydliad Bevan (2007) *Plant mewn Tlodi Difrifol yng Nghymru*. Caerdydd: Achub y Plant

Chwarae Teg (heb ddyddiad) *Prosiect Peilot Cydbwysedd Rhwng Bywyd a Gwaith 2002-2005 Gwerthusiad – Crynodeb Gweithredol*. Ar gael yn: <http://wlb.einfinity.co.uk/files/WLB%20Executive%20Summary%20REPORT%202002-%202005.pdf>

Dex, S. ac Ward, K. (2007) *Parental Care and employment in early childhood*. Cyfres Working Paper Rhif 57. Manceinion: Y Comisiwn Cyfle Cyfartal

Egan, D. (2007) Brwydro yn erbyn tlodi ymhlith plant yng Nghymru: a oes strategaethau addysg effeithiol ar waith? Caer Efrog: Sefydliad Joseph Rowntree

Grŵp Arbenigol Tlodi Plant (2008) *Child Poverty: Education 4-14 years*. Ar gael yn: <http://wales.gov.uk/dsjlg/publications/childrenyoung/education/recommendations.pdf?lang=en>

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002) *Ar gyfer Plant y mae Gofal Plant!* Caerdydd: LICC

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2005) *Dyfodol Teg i'n Plant: Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i Fynd i'r Afael â Thlodi Plant*. Caerdydd: LICC

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006a) *Dileu Tlodi Plant yng Nghymru: Mesur Llwyddiant*. Caerdydd: LICC

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006b) *Cynllun Cyflawni ar Dlodi Plant: Cynigion Cam I*. Caerdydd: LICC

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) *Cymru'n Un: rhaglen flaengar ar gyfer llywodraethu Cymru*. Caerdydd: LICC

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008a) *Gweithredu ar Dlodi Plant: papur ymgynghori*. Caerdydd: LICC

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008b) *Monitor Lles Plant a Phobl Ifanc Cymru 2008*. Caerdydd: LICC

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008c) *Sgiliau sy'n gweithio i Gymru: strategaeth a chynllun gweithredu ar sgiliau a chyflogaeth*. Caerdydd: LICC

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) *Mesur Arfaethedig ar Blant a Theuluoedd (Cymru)*. Caerdydd: LICC

'Ministers' benefit reform worries' (2008), BBC Wales News, 10 Rhagfyr

Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2008) *Tlodi Plant yng Nghymru: Ai Addysg yw'r Ateb?* Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ofsted (2008) *Registered childcare providers and places in England*, Awst. Ar gael yn: <http://www.ofsted.gov.uk/Ofsted-home/Publications-and-research/Browse-all-by/Care/Childcare/Quality-of-childcare>

Paterson, L. ac Iannelli, C. (2007) 'Patterns of Absolute and Relative Social Mobility: a Comparative Study of England, Wales and Scotland', *Sociological Research Online*, Cyf. 12 Rhifyn 6

Winckler, V. (2008) Cyflwyniad i gynhadledd Prifysgol Caerdydd: 'Welfare Reform: a good deal for Wales?' 26 Mehefin, Caerdydd

Y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (GICC) (2007) *Health Needs Assessment 2006: Children and Young People v2b*. Ar gael yn: <http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgld=719&pid=22798>

Yeandle, S., Bennett, C., Buckner, C., Fry, G. a Price, C. (2007) *Carers, Employment and Services in Wales: focus on Anglesey and Swansea*. Leeds: Prifysgol Leeds / Carers UK

Ystadegau Gwladol (2008) *Amcangyfrifon Canol Blwyddyn o'r Boblogaeth, 2007*. Ar gael yn: <http://www.statistics.gov.uk/statbase/Product.asp?vnk=15106>

Cyhoeddwyd gan Sefydliad Joseph Rowntree, The Homestead, 40 Water End, York YO30 6WP. Mae'r prosiect hwn yn rhan o raglen ymchwil a datblygu JRF. Mae'r safbwyntiau hyn, fodd bynnag, yn eiddo i'r awduron ac nid dyma rai'r Sefydliad o anghenraid. ISSN 0958-3084

Fformatau eraill ar gael.

Ffôn: 01904 615905 e-bost: info@jrf.org.uk